

ATODLEN 1

GWERTHOEDD TERFYN, GODDEFIANNAU, ETC.

RHAN II**NITROGEN DEUOCSID (NO₂) AC OCSIDAU NITROGEN (NO_x)****Gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen****2.1**

	<i>Cyfnod Cyfartaleddu</i>	<i>Gwerth terfyn</i>	<i>Goddefiant</i>	<i>Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn</i>
1. Gwerth terfyn fesul-awr ar gyfer diogelu iechyd pobl	1 awr	200µg/m ³ o NO ₂ y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 18 gwaith mewn blwyddyn galendr	70 µg/m ³ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canran flynyddol gyfartal nes cyrraedd 0 µg/m ³ erbyn 1 Ionawr 2010	1 Ionawr 2010
2. Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl	Y flwyddyn galendr	40µg/m ³ o NO ₂	14 µg/m ³ ar 1 Ionawr 2003, gan ostwng ar 1 Ionawr bob blwyddyn wedyn yn ôl canran flynyddol gyfartal nes cyrraedd 0 µg/m ³ erbyn 1 Ionawr 2010	1 Ionawr 2010
3. Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu llystyfiant	Y flwyddyn galendr	30 µg/m ³ o NO _x	Dim un	

Trothwy rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid

2.2 400 µg/m³ wedi'i fesur dros dair awr o'r bron mewn lleoliadau sy'n gynrychioliadol o ansawdd yr aer dros o leiaf 100 km² neu barth neu grynhoad cyfan, p'un bynnag yw'r lleiaf.

Isafswm y manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd pan eir yn uwch na'r trothwy rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid

2.3 Dylai'r manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd gynnwys o leiaf:

- dyddiad, awr a lle y digwyddiad a'r rhesymau drosto, os ydynt yn hysbys;
- — unrhyw ragolygon ar gyfer:
 - newidiadau mewn crynodiad (gwella, sefydlogi, neu ddirywio), ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau hynny,
 - yr ardal ddaearyddol o dan sylw,
 - parhad y digwyddiad;
 - y math o boblogaeth a allai fod yn sensitif i'r digwyddiad;
 - y rhagofalon sydd i'w cymryd gan y boblogaeth sensitif o dan sylw.